



## Disgrifiad Swydd

**Teitl y Swydd:** Swyddog Addysg STEM (De Cymru)

Gorchudd mamolaeth – tan fis Chwefror 2027 (cyfnod prawf o 4 mis)

**Yn gyfrifol i:** Rheolwr Gweithgareddau

**Wedi'i leoli yn:** Canolfan Waterton, Pen-y-bont ar Ogwr

**Rhanbarth:** De-orllewin a De-ddwyrain Cymru

**Oriau:** Llawn Amser – 37.5 Awr

Yr oriau safonol yw dydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 4.30pm er y gallai fod angen dechrau'n gynharach i ddarparu ar gyfer archebion ysgol. Gellid ystyried contract rhan-amser, neu gontract tymor yn unig, nodwch unrhyw ddewis o'r fath yn eich datganiad cais.

**Cyfflog:** Yn dechrau ar £28,000 (yn dibynnu ar brofiad)

**Diben y Swydd:** Gweithio gyda'r Rheolwr Gweithgareddau i gyflwyno gweithgareddau STEM cyffrous ac ysgogol mewn ysgolion ac i ddatblygu syniadau prosiect newydd.

### **Prif Gyfrifoldebau ac atebolrwyddau:**

Gweithio dan gyfarwyddyd y Rheolwr Gweithgareddau i:

- Cyflwyno gweithgareddau STEM i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fel rhan o'r tîm Cyflwyno Gweithgareddau a mynychu ymweliadau safle neu ddigwyddiadau arddangos fel cynrychiolydd o EESW.
- Paratoi offer ac adnoddau ar gyfer cyflwyno gweithgareddau yn ôl yr angen
- Annog ysgolion yn rhagweithiol i archebu sesiynau gweithgareddau
- Casglu'r holl ddogfennaeth ofynnol gan gynnwys ffurflenni cofrestru a holiaduron a chynnal cofnodion o weithgareddau a gyflwynwyd i ddiweddarau cronfeydd data a thaenlenni a rennir
- Cefnogi datblygiad parhaus gweithgareddau trwy rannu arsylwadau a syniadau gyda'r Rheolwr Gweithgareddau, i gynorthwyo codi arian ar gyfer yr Elusen
- Mynychu digwyddiadau fel rhan o dîm EESW i hyrwyddo gweithgareddau

- Gweithio o dan gyfarwyddyd y Rheolwr Gweithgareddau a chysylltu â chydweithwyr eraill i sicrhau bod ysgolion ym mhob ardal yn cael eu cynnwys
- Mynychu cyfarfodydd tîm a chyflwynwyr gweithgareddau pan fo angen
- Cynorthwyo gyda llinynnau a gweithgareddau eraill pan fo angen
- Unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl gofynion y Rheolwr Gweithgareddau a/neu'r Prif Swyddog Gweithredol

### **Sgiliau a phrofiad hanfodol**

- Cymwys hyd at lefel gradd mewn disgyblaeth STEM berthnasol
- Profiad o addysgu neu weithio gyda phobl ifanc
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol rhagorol
- Sgiliau TGCh rhagorol gan gynnwys MS Office
- Y gallu i weithio'n unigol ac fel rhan o dîm
- Gallu profedig i ddysgu a chymhwyso sgiliau newydd mewn cyfnod byr

### **Sgiliau a Phrofiad Dymunol**

- Gallu i siarad a chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg
- Profiad o gynllunio gwersi
- Gwybodaeth am y Cwricwlwm newydd i Gymru
- Profiad o sgiliau rhaglennu/codio neu'r gallu i'w dysgu
- Sgiliau dylunio profedig neu brofiad CAD/CAM

Bydd y swydd yn gofyn i chi gael gwiriad DBS manwl. Bydd gofyn i chi deithio i ysgolion ledled De a Gorllewin Cymru gan ddefnyddio'ch cludiant eich hun (caiff y milltiroedd eu had-dalu'n ddiweddarach).